

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i  
Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate –  
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU / LH  
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 10 Rhagfyr 2020

Annwyl Rhieni/Gofalwyr

Ddoe, ysgrifennais at yr holl rieni/gofalwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr i esbonio trefniadau diwedd tymor yn ein hysgolion.

Y prynhawn yma, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru wybod am argymhelliad clir gan y Prif Swyddog Meddygol y dylai pob ysgol uwchradd brif ffrwd gael ei chau i bob dysgwr (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 yn gynhwysol), ac eithrio'r rhai mwyaf agored i niwed, o ddydd Llun 14 Rhagfyr.

Nid yw cyfarwydddeb y Prif Swyddog Meddygol yn berthnasol ar hyn o bryd i ysgolion babanod, iau, cynradd ac arbennig, na lleoliadau uned cyfeirio disgyblion.

Felly, mae'r trefniadau diwedd tymor presennol ar gyfer ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

- diwrnod olaf presenoldeb corfforol pob disgybl yn ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr fydd dydd Gwener 11 Rhagfyr;
- bydd pob disgybl ysgol uwchradd yn derbyn dysgu cyfunol gartref yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 14 Rhagfyr;
- diwrnod olaf presenoldeb corfforol pob disgybl yn ysgolion babanod, iau, cynradd ac arbennig Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys Y Bont) fydd dydd Mercher 16 Rhagfyr; a
- bydd pob disgybl yn ysgolion babanod, iau, cynradd ac arbennig Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys The Bridge) yn derbyn dysgu cyfunol gartref ar ddydd Iau 17 a dydd Gwener 18 Rhagfyr.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidiad testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Oherwydd y cynnydd sylweddol a chynyddol mewn achosion cadarnhaol mewn ysgolion, mae'n bosibl y bydd rhagor o ysgolion yn cau cyn dydd Mercher nesaf. Os bydd hyn yn digwydd, bydd gohebiaeth pellach yn cael ei roi i rieni/gofalwyr ar y pryd.

Rwy'n ddiolchgar i rieni a gofalwyr am eu cefnogaeth, eu dealltwriaeth a'u hamynedd ar yr adeg heriol hon.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Lindsay Iorwerth Harvey'.

**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate Support Unit (EDSU)**